



Asesu Effaith

Gwelwch y canllawiau (rhowch dolen we) ar gyfer cwblhau'r templed hwn (neu atodwch)

Cynnwys

Adran 1. Y cynnig.....	2
Disgrifiad o'r cynnig	2
Adran 2. Cyfateb i'r nodau ffyniant	3
Sir Benfro / Cymru ffyniannus.....	3
Sir Benfro / Cymru gydnerth	3
Sir Benfro / Cymru iachach.....	3
Sir Benfro / Cymru fwy cyfartal	3
Cymru o gymunedau cydlynol	4
Sir Benfro / Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu	4
Sir Benfro / Cymru gyfrifol yn fyd-eang.....	4
Adran 3. Arfarnu cynaliadwyedd	5
Hirdymor	5
Atal	5
Ymdoddi	5
Cydweithredu.....	5
Cyfranogiad	6
Adran 4. Argymhelliad / lliniaru.....	7
Adran 5. Cloriannu / Gwaith Dilynol.....	8

Adran 1. Y cynnig

Disgrifiad o'r cynnig

(Disgrifiwch y canlyniad i'w gyflawni, yr allbwn fydd yn cyfrannu at hyn a'r hyn y bwriadwch ei newid i hwyluso hyn)

Rydym eisiau codi incwm o gynnydd mewn taliadau hamdden i gael arbedion trwy effeithlonrwydd a lleihau cost ein gwasanaeth.

Pa ganlyniad fyynnwch chi gyflawni? Sut fydd y newid a berwch yn cynorthwyo cyflawni'r canlyniad hwn?

Trwy ail-lunio a chodi prisiau 3% ar gyfartaledd ar draws yr holl bethau y codwn amdanynt, ein nod yw cynyddu tua £50k ar ein hincwm alldro yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17.

Beth ydych chi'n bwriadu ei newid?

Byddwn yn adolygu pob llinell incwm, gan godi rhai prisiau a gostwng eraill. Bwriadwn ail-lunio ac ailgyflwyno ein pecynnau aelodaeth i hwyluso ysgogi twf. Bydd aelodau presennol yn parhau gyda'u pecynnau aelodaeth presennol ond iddynt aros yn aelodau; rydym yn bwriadu cynnydd bach yn y pecynnau hyn yn 2017/18.

Rydym yn bwriadu parhau'r cynllun defnyddwyr ffyddlon lle bydd cwsmeriaid yn talu ffi o flaen llaw er mwyn talu llai wrth ddefnyddio.

Rydym yn bwriadu ymestyn y cynllun pasbort i hamdden i bobl sy'n derbyn budd-daliadau arbennig. Byddwn yn dal i gynnig prisiau manteisiol i bobl sy'n ymaelodi ac yn talu trwy ddebyd uniongyrchol. Byddwn hefyd yn cynnig prisiau talu wrth chwarae sylweddol is i bobl sy'n cofrestru ar y cynllun. Gobeithiwn y bydd hyn yn cynyddu mwy ar hygyrchedd ein gwasanaethau i bob rhan o'r gymuned.

Adran 2. Cyfateb i'r nodau ffyniant

(Fel arall, gellid cael un tabl ar gyfer yr amcanion – gwelwch Adran 4 – ynghyd â thabl ar gyfer y nodweddion gwarchoddedig)

Sir Benfro / Cymru ffyniannus

(Yr economi, addysg a sgiliau)

Fe wyddom mai gweithgarwch corfforol yw'r ymyriad gorau y gall pawb ei wneud i wella'u hiechyd a ffyniant. Yn ei dro, mae hyn yn helpu pobl ddysgu a chael sgiliau newydd, mae'n helpu eu gwneud yn iachach a cholli llai o ddyddiau gwaith oherwydd salwch.

Sir Benfro / Cymru gydnerth

(Yr amgylchedd, llifogydd a bioamrywiaeth. Sicrhewch eich bod yn ystyried cyfraniad y cynnig at gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth gan gynnwys hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau)

Ni fydd ein cynigion yn effeithio ar y materion hyn.

Sir Benfro / Cymru iachach

(Iechyd corfforol a'r meddwl, gan gynnwys gwneud dewisiadau iachach sydd o fuddiant i iechyd yn y dyfodol)

Mae gweithgarwch corfforol a chymdeithasu'n fuddiol i iechyd a ffyniant rhywun. Trwy gadw prisiau gwasanaethau hamdden yn fforddiadwy i fwyafrif y bobl yn y gymuned y gobaith yw y bydd yn annog "Mwy o bobl yn fwy egnïol yn amlach"

Sir Benfro / Cymru fwy cyfartal

(Galluogi pobl i gyrraedd eu llawn allu, waeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau)

Mae'r cynllun Pasbort i Hamdden yn sicrhau bod pobl sy'n derbyn budd-daliadau arbennig yn cael cyfle i gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

(Nodwch yr effaith all fod ar y nodweddion gwarchoddedig yn y tabl isod)

	Cadarnhaol:	Dim:	Negyddol:
Pobl ifanc		le	
Pobl hŷn		le	
Pobl anabl		le	
Newid rhyw		le	
Priodas a phartneriaeth sifil		le	
Beichiogrwydd a mamolaeth		le	

Hil		le	
Crefydd neu gred		le	
Rhyw		le	
Cyfeiriadedd rhywiol		le	

Cymru o gymunedau cydlynol

(Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a gyda chysylltiadau da)

Mae cyfranogiad yn y gwasanaethau a gynigiwn yn dod â phob rhan o'r gymuned at ei gilydd. Yn aml bydd hyn yn ffurfio grwpiau cymdeithasol sy'n meithrin diddordeb cyffredin ac ymdeimlad o berthyn .

Sir Benfro / Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu

Diwylliant, etifeddiaeth a'r Gymraeg. Ar gyfer y Gymraeg mae angen i chi gwmpasu:

- Effeithiau tebygol (cadarnhaol neu andwyol) ar ddefnyddio'r Gymraeg, a'i thrin yn gyfartal â'r Saesneg
- Effeithiau cadarnhaol all fod, gan osgoi effeithiau andwyol ar ddefnyddio'r Gymraeg, a'i thrin yn gyfartal â'r Saesneg)

Mae Gwasanaethau Hamdden yn dod â phobl at ei gilydd sy'n siarad Cymraeg a Saesneg ynghyd ag ieithoedd eraill. Rydym yn rhoi gwybodaeth yn y ddwy iaith.

Sir Benfro / Cymru gyfrifol yn fyd-eang

(Ystyried a yw camau gweithredu'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at ffyniant byd-eang, e.e. newid yn yr hinsawdd)

Fel defnyddiwr ynni mawr, mae Gwasanaethau Hamdden wedi bod yn rhagweithiol a llwyddiannus iawn wrth leihau ein hól troed carbon, gweithredu cynlluniau buddsoddi i arbed a chyflawni cyfraddiadau DEC isel iawn yn ein cyfleusterau.

Adran 3. Arfarnu cynaliadwyedd

Hirdymor

Sut mae'r cynnig yn cydbwysu'r byrdymor gyda diogelu gallu diwallu anghenion hirdymor

Mae'n bwysig ein bod yn cadw'n gwasanaethau'n gynaliadwy. Trwy adolygu prisiau'n rheolaidd mae'n rhoi'r gallu i ni sicrhau bod ein gwasanaethau yn aros mor gost-efeithiol ag y bo modd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Atal

Sut all y cynigion atal problemau rhag digwydd neu waethygu

Mae ein holl raglenni'n bwysig i helpu pobl fyw bywyd egniol ac iach. Gobeithiwn y bydd faint o weithgarwch a wna cwsmeriaid yn atal neu'n cadw draw iechyd gwael yn y dyfodol. Darparwn gynlluniau ymarfer trwy atgyfeirio ac mae gennym gysylltiadau cryf gyda Gwasanaethau Iechyd.

Ymdoddi

Ystyriwch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion cyrff cyhoeddus eraill

Mae ein cynnig yn cynorthwyo sicrhau y gallwn ddal i gyfrannu at yr amcanion ymdoddi.

Cydweithredu

Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â gweithio gyda chyrrff eraill neu rannau eraill o'r Cyngor

Nid yw'r cynnig ohono'i hun yn cyfrannu at weithio gyda chyrrff eraill. Fodd bynnag bydd y cynnig yn cynorthwyo cynnal y gwasanaeth er mwyn i ni allu dal i gyfrannu at amcanion cyrff eraill.

Cyfranogiad

Sut ydych chi wedi cael pobl i gyfranogi a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth Sir Benfro.

Gwnaethom waith ymgynghori fel rhan o ymgynghori'r Awdurdod ar y gyllideb, a ofynnodd gwestiwn penodol ynghylch cynyddu taliadau hamdden.

Beth yw barn rhanddeiliaid ar eich cynnig?

Mewn gwaith ymgynghori ar y gyllideb a wnaed yn hydref 2016 gofynnwyd cwestiwn ynghylch cynyddu incwm: Gwasanaethau Hamdden – taliadau uwch o 3% i gynhyrchu mwy o incwm.

Dywedodd 53% ei fod yn dderbyniol
Nid oedd yn dderbyniol nac yn annerbyniol i 13%.
Cafodd 32% hynny'n annerbyniol.

Cynyddu taliadau gwasanaethau hamdden

Nododd mwyafrif yr atebwyr (53%) bod cynyddu taliadau gwasanaethau hamdden yn dderbyniol. Mynegodd rhai pobl bryderon y gall hyn effeithio'n negyddol ar iechyd a ffyniant.

Adran 4. Argymhelliad / Iliniaru

A oes angen addasu'r cynnig?

Nac oes, teimlwn fod codi rhyw 3% ar y prisiau ac ad-drefnu a lleihau rhai prisiau'n dderbyniol i fwyafrif y cwsmeriaid.

Rhowch grynodeb o gyfraniad y cynnig at nodau ffyniant

Nod	Crynodeb o sut mae'r cynnig yn datblygu nodau ffyniant
Sir Benfro / Cymru ffyniannus	Mae'n annog pobl i gyfranogi mewn gweithgarwch corfforol ac ymdoddi cymdeithasol
Sir Benfro / Cymru gydnerth	Mae pobl hapus yn fwy cydnerth
Sir Benfro / Cymru iachach	Dangoswyd mai gweithgarwch corfforol yw'r ymyriad gorau am i unigolyn ei fabwysiadu i wella iechyd a ffyniant.
Sir Benfro / Cymru fwy cyfartal	Trwy wneud ein prisiau'n fforddiadwy mae'n rhoi cyfle i bawb yn y gymuned gyfranogi, elwa ac ymwneud.
Cymru o gymunedau cydlynol	Mae'n dra chyfarwydd bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn helpu dod â grwpiau at ei gilydd i ddilyn diddordeb cyffredin.
Sir Benfro / Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu	Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo yn ein holl gyfleusterau
Sir Benfro / Cymru gyfrifol yn fyd-eang	Mae cyfraddiadau DEC ein canolfannau hamdden ymhlith y goreuon o adeiladu o'r math hwn. Rydym wedi manteisio ar gynlluniau buddsoddi i arbed i ddefnyddio llai o ynni ac rydym yn cynnal grŵp hyrwyddwyr ynni llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar arweiniadau cadw tŷ'n dda i leihau ynni a gwastraff.

Adran 5. Cloriannu / Gwaith Dilynol

Yn dilyn gweithredu'r cynnig, cloriannu a weithiodd yn ôl y disgwyl:

Bydd y targed incwm ar gyfer 2017/18 yn cael ei bennu a byddwn yn cadw golwg parhaol ar y gyllideb i sicrhau ein bod yn cynhyrchu'r incwm disgwyliedig. Byddwn yn canolbwyntio ar gadw cwsmeriaid ac annog mwy o bobl i gymryd rhan. Byddwn yn defnyddio strategaethau dal gafael a marchnata ac yn gweithio gydag adrannau eraill (Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol) i hybu incwm a defnydd.